John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Drwy e-bost

ELGC(5)-21-18 Papur 12/ Paper 12

26 Mehefin 2018

Annwyl John,

**Blaenraglen waith: meysydd o ddiddordeb a rennir**

Trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei flaenraglen waith yn ddiweddar. Cytunodd yr Aelodau ar nifer o flaenoriaethau, y mae dwy ohonynt yn gorgyffwrdd â phortffolio'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau:

- Cyllido ysgolion
- Craffu ar ôl deddfu ar Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ymgynghori ar ei ymchwiliad cyllido ysgolion yn nhymor yr hydref. O ystyried ei berthnasedd i gyllido llywodraeth leol, byddaf yn sicrhau bod Clerc y Pwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Glerc y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'n rheolaidd ac yn trafod cyfleoedd ymarferol i gydweithio, os yw'n briodol.

O gofio ymrwymiadau presennol y Pwyllgor, mae'n annhebygol y bydd gwaith ar graffu ar ôl deddfu ar Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn dechrau cyn gwanwyn/haf 2019. Eto, gofynnaf i'r Clerc roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565